Britannica School

Britannica ImageQuest



# Taith Dywys

Eich Canllaw Llawn i Britannica School ac ImageQuest

Britannica EDUCATION

## Gwylio a Dysgu

Edrychwch ar ein fideos tiwtorial **Britannica School** i ddysgu mwy am y nodweddion yn y canllaw hwn, a mwy.

# Dyma’r adnodd i'w ddefnyddio yn ein hystafelloedd dosbarth heddiw

## Annog dysgwyr i archwilio a darganfod o'r Blynyddoedd Cynnar i Ôl-16.

Mae Britannica School yn cynnig llwyfan diogel a dibynadwy sydd wedi'i ddylunio i wneud dysgu'n ddiddorol ac yn hygyrch i bobl o bob oed a gallu dysgu. Gyda phedair lefel wahanol, sef Y Blynyddoedd Cynnar, Sylfaen, Canolraddol ac Uwch, i gyd yn gyson â’r safonau cysylltiedig, mae Britannica School yn bodloni gofynion unigol pob myfyriwr ac addysgwr.



# Erthyglau

Waeth beth fo'r lefel, mae erthyglau Britannica School wedi'u cynllunio fel bod yr hyn y mae’r defnyddiwr yn chwilio amdano’n hawdd i’w ganfod a’i ddarllen, gan wneud gwybodaeth yn hawdd dod o hyd iddi, yn ddiddorol ac yn hygyrch. Mae'r cynllun yn lleihau llwyth gwybyddol, gan helpu myfyrwyr i ganolbwyntio.






## Oriel Cyfryngau’r Erthygl

Rhagolwg o'r holl gyfryngau – lluniau, deunyddiau rhyngweithiol, darluniau – ar frig pob erthygl, gydag offeryn Neidio i'r Erthygl i gael mynediad cyflym.




## Delweddau Mewnol Gweledol

Lluniau, fideos a deunyddiau rhyngweithiol wedi'u hymgorffori’n uniongyrchol mewn erthyglau i ddarparu cyd-destun a’u gwneud yn haws i’w darllen.




## Tabl Cynnwys

Llywio’r erthyglau'n rhwydd drwy ddefnyddio’r tabl cynnwys acordion, sy'n galluogi myfyrwyr i neidio i adrannau penodol yn ddidrafferth.




## Cymorth Llythrennedd

Llywio’r erthyglau’n hawdd drwy ddefnyddio’r tabl cynnwys acordion, sy'n galluogi myfyrwyr i neidio i adrannau penodol yn ddidrafferth.

## Rhestrau o Bwyntiau Bwled a Ffeithiau Difyr

Rhestrau o bwyntiau bwled a ffeithiau difyr sy’n rhannu’r testun, gan ei wneud yn fwy dealladwy a diddorol.



# Nodweddion Llywio a Dysgu

Llywio’n ddidrafferth gyda bar offer Britannica School sydd ar gael ym mhob erthygl. Mae offer canolog yn arbed amser ar dasgau nad ydynt yn rhai dysgu: argraffu, dyfynnu, addasu ffontiau a toglo lefel darllen, yn ogystal â rhannu'n uniongyrchol â **Google Classroom, Microsoft Teams, neu Google Drive** er mwyn integreiddio'n hawdd yn yr ystafell ddosbarth.




### Dyfynnu

Mae Britannica yn symleiddio'r broses o ddysgu pwysigrwydd dyfynnu ffynonellau. Gall yr offeryn hwn gynhyrchu pedwar arddull ar bob lefel: MLA, APA, Chicago, a Harvard.

### Cadw

Cadw erthyglau at rywbryd eto drwy roi nod tudalen arnynt neu eu cadw mewn **Pecyn Adnoddau** penodol er mwyn bod yn drefnus.

### Cyfieithu

Cael gafael ar gynnwys mewn cannoedd o ieithoedd drwy ddefnyddio'r nodwedd cyfieithu hon sydd wedi'i phweru gan Google. Hofran dros gyfieithiadau i gryfhau sgiliau Saesneg myfyrwyr drwy edrych ar y testun gwreiddiol.

### Addasu Maint y Ffont

Gall darllenwyr ddefnyddio'r saethau hyn i gynyddu neu leihau testun er mwyn ei gwneud yn haws ei ddarllen, sy’n sicrhau bod cynnwys yn dal yn hygyrch ac yn addasu i bob dysgwr.

### Ffont OpenDyslexic

Dyluniwyd yr offeryn hwn ar gyfer myfyrwyr sy'n elwa o destun sy'n ystyriol o ddyslecsia. Mae llythrennau sy’n lletach ar y gwaelod a siapiau unigryw yn lleihau’r reddf i fflipio, gan gefnogi darllen llai herciog ac osgoi amharu ar y cyfnod darllen a chreu profiad mwy cynhwysol.

# Offeryn Llywio ar draws Lefelau Dysgu



Y Blynyddoedd Cynnar




Sylfaen




Canolradd




Uwch

# Why Are Some Features Grayed Out in Translated Articles?

Pan fyddwch yn defnyddio offeryn Google Translate ar Britannica School, mae rhai nodweddion wedi'u hanalluogi, fel Cite, Save, Send a Read-Aloud. Y rheswm am hyn yw mai Google sy'n cynhyrchu'r fersiwn wedi'i chyfieithu, nid Britannica.

### Dyfynnu a Chadw

Mae'r offer hyn yn gweithio gyda chynnwys gwreiddiol Britannica, ond gan fod Google yn cynhyrchu'r cyfieithiad, ni fyddai dyfyniadau a fersiynau wedi'u cadw yn adlewyrchu'r testun wedi'i gyfieithu.

### Anfon Erthyglau

Wrth rannu erthygl, dim ond y fersiwn Saesneg wreiddiol sydd ar gael i osgoi dryswch.




### Darllen yn Uchel

Mae'r nodwedd hon yn darllen cynnwys gwreiddiol Britannica ac nid yw'n gallu delio â'r testun sydd wedi'i gyfieithu.

### Argraffu

Er nad yw Britannica yn cynhyrchu tudalen argraffu wedi'i fformatio ar gyfer cyfieithiadau, efallai y gallwch argraffu gan ddefnyddio swyddogaeth argraffu eich porwr.

# Gwahaniaethu ac Integreiddio Manwl



## Integreiddio Britannica ImageQuest

Ar gyfer ysgolion sydd â thanysgrifiad Britannica ImageQuest – integreiddio’n ddi-dor â  Britannica School i gael mynediad hawdd at ddelweddau o ansawdd uchel.




## Chwilio Manwl

Mireinio chwiliadau gydag opsiynau i gyfateb yn union i ymadroddion, cynnwys neu hepgor geiriau neu ddod o hyd i eiriau wrth ymyl ei gilydd – perffaith ar gyfer nodi gwybodaeth benodol yn gyflym.

## Amlgyfrwng

Gwella llythrennedd yn y cyfryngau gydag amrywiaeth o fideos a delweddau o ansawdd uchel. Defnyddiwch y rhain fel syniadau ar gyfer gwersi neu bwyntiau trafod i ennyn diddordeb dysgwyr a dod â phynciau'n fyw.







## Gwefannau Gorau'r We

Ehangu ymchwil y tu hwnt i Britannica School gyda Gwefannau Gorau'r We. Mae pob ffynhonnell yn cael ei adolygu'n ofalus gan Dîm Golygyddol Britannica i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer dysgu myfyrwyr.

## Lefelau Darllen

Cefnogi neu herio myfyrwyr yn hawdd drwy addasu'r lefel darllen a ddewisir a defnyddio'r opsiwn hidlo Lexile. Mae gosod ystod **Lexile (860-1700)** yn sicrhau bod deunyddiau darllen yn hygyrch ac yn briodol heriol, gan wneud gwahaniaethu'n broses syml ac effeithiol yn eich ystafell ddosbarth.



# Dysgu Cynnar

Mae Dysgu Cynnar Britannica School wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr yn eu blynyddoedd ffurfiannol, gan gynnig erthyglau a darllenir yn uchel gyda geirfa sy'n briodol i oedran, delweddau bywiog, fideos a nodweddion rhyngweithiol sy'n cadw diddordeb dysgwyr ifanc. Gyda llywio hawdd, gall myfyrwyr blymio i mewn i gynnwys sydd wedi'i greu'n arbennig ar eu cyfer nhw!






## Nodweddion Cymorth Testun

**Mae'r geiriadur clic cyflym** yn eich galluogi i ddod o hyd i ddiffiniadau a chyfieithiadau Sbaeneg am unrhyw air yn gyflym. Mae **nodwedd darllen** yn uchel, sy'n amlygu gair wrth air, ar gael drwy bwyso'r botwm chwarae ar frig pob adran. Mae hyn yn cefnogi'r rheini sy'n dechrau darllen.




## Cynllun sy'n Ddiddorol ac yn Hawdd ei Ddarllen

Mae cynnwys sy'n **cyd-fynd â safonau** yn cwmpasu chwe chategori, wedi'u gwella gydag **orielau cyfryngau** a **delweddau mewnol** er mwyn ymgolli yn y profiad. Mae'r erthyglau wedi'u rhannu'n feddylgar ac yn ddealladwy i rheini sy'n dechrau darllen.




## Sgiliau Sylfaenol Britannica

Ysbrydoli dysgwyr ifanc i **ddarllen, archwilio, chwarae** a **chreu**! Gall dysgwyr cynnar fwynhau e-lyfrau wedi'u hanimeiddio, archwilio biomau'r byd, ymarfer mathemateg a llythrennedd drwy gemau hwyliog a mynegi eu creadigrwydd gyda bwrdd gwyn digidol.

# Sylfaenol

Ysbrydoli myfyrwyr ifanc gyda phynciau cyffrous a delweddau bywiog sy'n tanio ymgysylltiad a chwilfrydedd. Mae cynnwys sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd yn darparu syniadau ar gyfer gwersi unigryw, yn sbarduno trafodaethau ac yn ennyn chwilfrydedd ar draws pynciau.






## Archwilio Offer

Defnyddiwch **Atlas y Byd** i archwilio daearyddiaeth fyd-eang, plymio i'r **Deyrnas Anifeiliaid** fesul grŵp neu gynefin, a **datgelu tirnodau hanesyddol** i gyfoethogi gwersi. Mae dolenni cyflym at fywgraffiadau, lluniau, fideos ac erthyglau yn sicrhau bod byd o ddysgu ar gael ar flaenau'ch bysedd.




## Newyddion a Digwyddiadau Pwysig

Dysgu y tu hwnt i'r penawdau. Mae ein herthygl **Yn y Newyddion!** yn cael ei diweddaru ddwywaith yr wythnos, ac mae'n cynnwys **gemau geirfa Merriam-Webster**, ffeithiau difyr a dolenni i erthyglau amserol sy'n berffaith ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.




## Cyfryngau Rhyngweithiol

Dod â phynciau'n fyw gyda channoedd o **ddeunyddiau rhyngweithiol deinamig**, yn cynnwys digwyddiadau hanesyddol a chylchoedd bywyd diddorol. Cael gafael ar y deunyddiau rhyngweithiol hyn o'r hafan i wella ymgysylltiad a dealltwriaeth.




## Sgiliau Sylfaenol Britannica

**Darllen, Archwilio, Chwarae a Chreu** i feithrin sgiliau sylfaenol! Gall dysgwyr fynegi eu creadigrwydd a rhyngweithio ag e-lyfrau wedi'u hanimeiddio, biomau'r byd, a gemau mathemateg a llythrennedd hwyliog.

# Canolradd

Ymgysylltu â dysgwyr lefel canolraddol gydag adnoddau sy'n ysbrydoli chwilfrydedd, yn meithrin trafodaeth ac yn hyrwyddo dysgu annibynnol. Mae cynnwys ac offer rhyngweithiol sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd yn ei gwneud hi'n hawdd neidio i mewn i bynciau newydd ac archwilio cysyniadau'n fanwl.






## Newyddion a Digwyddiadau Pwysig

Dysgu y tu hwnt i'r penawdau. Mae ein herthygl **Yn y Newyddion!** yn cael ei diweddaru ddwywaith yr wythnos, ac mae'n cynnwys **gemau geirfa Merriam-Webster**, ffeithiau difyr, a dolenni i erthyglau amserol sy'n berffaith ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.




## Cyfryngau Rhyngweithiol

Dod â phynciau'n fyw gyda channoedd o adnoddau rhyngweithiol deinamig, yn cynnwys digwyddiadau allweddol ym mywyd Albert Einstein a manylion am wahanol fridiau cŵn. Mae'r adnoddau diddorol hyn yn gwella ymgysylltiad a dealltwriaeth drwy archwilio cynnwys yn weithredol.




## Casgliadau a Gwledydd

Darganfod nodweddion **Cipolwg ar Gasgliadau** a **Cymharu Gwledydd** sy'n cynnig cyfleoedd cyflym i fyfyrwyr wneud cysylltiadau a meithrin ymwybyddiaeth fyd-eang.




## Ffynonellau Gwreiddiol

Dewch o hyd i lythyrau, areithiau a deunyddiau ffynhonnell gwreiddiol gwerthfawr eraill i ddyfnhau dealltwriaeth o ddigwyddiadau a safbwyntiau hanesyddol.

# Lefel Uwch

Rhoi adnoddau i ddysgwyr lefel uwch sy'n cefnogi ymchwil fanwl, meddwl yn feirniadol a pharatoi ar gyfer coleg a gyrfaoedd.






## Deallusrwydd Artiffisial cyfrifol y gallwch ymddiried ynddo

**ASK Britannica** yw ein **hoffer cymorth chwilio newydd sy'n cael ei bweru gan ddeallusrwydd artiffisial**, sydd ar gael ar lefel uwch Britannica School yn unig ar hyn o bryd. Gofyn cwestiynau iaith naturiol a chael atebion dibynadwy ar unwaith o gynnwys Britannica.




## Dysgu Rhyngweithiol

Mae’r nodwedd **Ar y Diwrnod Hwn**, yn tynnu sylw at ddigwyddiadau hanesyddol arwyddocaol, gan annog myfyrwyr i gysylltu â hanes. Mae **Ffeithiau Cyflym** yn rhoi cipolwg cyflym a dolenni i erthyglau ar bynciau diddorol, gan ennyn chwilfrydedd ac ehangu gwybodaeth.




## Offer Ymchwil

Trefnu cynnwys gyda **Fy Britannica**, lle gall myfyrwyr gadw erthyglau a chreu **Pecynnau Adnoddau** personol – perffaith ar gyfer prosiectau ac ymchwil tymor hir. Mae'r offer **Cymharu Gwledydd** ac **Atlas y Byd** yn rhoi persbectif byd-eang, gan alluogi myfyrwyr i archwilio diwylliannau, llywodraethau a daearyddiaethau amrywiol.




## Erthyglau Newydd a Diwygiedig

Cadw dysgu'n gyfredol gydag erthyglau newydd a diwygiedig ar bynciau poblogaidd, ffigurau hanesyddol, a digwyddiadau allweddol, gan gynnig cynnwys dibynadwy a chyfredol.

# Britannica ImageQuest




## Un adnodd, sawl pwrpas!

Mae Britannica ImageQuest yn dod â chynlluniau gwersi, aseiniadau a phrosiectau'n fyw gyda dros 3 miliwn o ddelweddau ac 11, 000 o fideos o dros 60 o gasgliadau blaenllaw...ac mae’n dal i dyfu!

Mae Oriel Gelf Bridgeman, y Llyfrgell Lluniau Gwyddoniaeth, Ingram Publishing, y Gymdeithas Ddaearyddol Genedlaethol, a ffynonellau cyfryngau dibynadwy eraill wedi ymuno â Britannica i ddarparu'r cynnig gorau a ehangaf o ddelweddau, fideos a deunyddiau clipluniau sy'n berthnasol i'r cwricwlwm (ffeithluniau, arwyddion a symbolau, cysyniadau graffig a darluniau fector cŵl), a hawliau’r cyfan wedi’u cymeradwyo er mwyn eu defnyddio at ddibenion addysgol, anfasnachol.

# Orielau

Ar hafan ImageQuest, fe welwch orielau o ddelweddau a fideos sydd wedi'u curadu'n ofalus i chi eu harchwilio! Pori drwy ddelweddau a fideos o'r ansawdd gorau o'n chwiliadau mwyaf poblogaidd i ddod o hyd i'r cynnwys rydych chi'n chwilio amdano yn hawdd. Sbarduno diddordeb y dysgwyr gyda'r casgliadau hyn sy'n hawdd i'w harchwilio!



# Canlyniadau Chwilio

Chwilio'n hawdd drwy'r miliynau o ddelweddau a fideos sydd ar gael ar ImageQuest drwy ddefnyddio’r bar chwilio. Gallu dewis naill ai delweddau neu fideos i weld yr holl ganlyniadau a dod o hyd i'r darn cyfryngau perffaith ar gyfer eich gwers, prosiect neu gyflwyniad yn hawdd!




## Hidlo Canlyniadau

Gyda mynediad at filiynau o ddelweddau a fideos o ansawdd uchel, gallwch fireinio eich chwiliad drwy ddefnyddio'r offer hidlo chwilio. Hidlo delweddau yn ôl eich hoff bartneriaid cyfryngau, chwilio am ddelweddau yn ôl eu gogwydd, neu gael gafael ar filiynau o gipluniau! Gyda fideos, hidlwch yn ôl partner cyfryngau neu yn ôl a oes ganddynt sain ai peidio

## Nifer o Ddelweddau a Fideos

Gallu ymgysylltu â nifer o ddelweddau neu fideos ar yr un pryd drwy glicio ar y botwm "Dewis". Dewis nifer o ddelweddau neu fideos ar unwaith i'w llwytho i lawr, eu rhannu, eu hargraffu a'u cadw ar Fy Nghyfryngau!

# Manylion Cyfryngau

Gall myfyrwyr ac addysgwyr ddefnyddio delweddau a fideos mewn sawl ffordd i gefnogi cyfarwyddiadau yn yr ystafell ddosbarth! Cynnwys cyfryngau mewn gwersi a gweithgareddau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a chefnogi dysgu gweledol.




## Offer Cyfryngau

Dewis ddelwedd neu fideo o'ch dewis i gadw, rhannu a dyfynnu. Mae pob delwedd a fideo yn cynnwys dyfyniadau ym mhob un o'r pedwar arddull fformatio. Cadw cyfryngau yn eich cyfrif Fy Britannica, eu llwytho i lawr yn uniongyrchol i'ch cyfrif cyfrifiadurol, neu argraffu delweddau ar unwaith!

## Rhannu

Rhannu eich canlyniadau chwilio drwy lwytho ffeiliau cyfryngau i lawr yn uniongyrchol i'ch cyfrifiadur. Anfon delweddau a fideos dros e-bost at ddefnyddwyr eraill Britannica. Argraffu delweddau neu rannu gyfryngau i Google Drive, Google, Classroom, neu Microsoft Teams!

# Fy Nghyfryngau

Sefydlu cyfrif Fy Britannica personol a chadw lluniau a fideos! Yn y fan hon, gall addysgwyr a disgyblion weld eu hoff gyfryngau a threfnu delweddau a fideos mewn albymau. Mae’r adran nodiadau’n gadael i addysgwyr a disgyblion gyfathrebu’n syml â’i gilydd, felly mae Fy Nghyfryngau yn offer gwych ar gyfer dysgu digidol!




### Sut dylai athrawon ddefnyddio Fy Nghyfryngau?

Mae Fy Nghyfryngau yn lle perffaith i athrawon gasglu'r holl ddelweddau a fideos perthnasol ar gyfer uned benodol o waith. Defnyddio’r adran nodiadau ar gyfer cynllunio. Gallu rhannu'r albwm hefyd. Mae myfyrwyr yn gallu gweld yr albwm heb gyfrif Fy Britannica.

### Sut dylai myfyrwyr ddefnyddio Fy Nghyfryngau?

Gall disgyblion gadw golwg ar y cynnwys maent wedi’i ganfod wrth ymchwilio drwy ei drefnu mewn albwm. Gallant ddefnyddio'r adran nodiadau i ysgrifennu crynodebau o bwyntiau allweddol a nodiadau eraill y maent yn eu casglu wrth iddynt ymchwilio.

# Syniadau ar gyfer Prosiectau

**Stori Delweddau**
Cyfuno pŵer delweddau ac adrodd straeon i wella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau! Defnyddio Stori Delweddau i roi gwybod i bobl eraill am bwnc ymchwil gan ddefnyddio dilyniant delweddau a thestun.

**Geiriadur Delweddau**
Gwella'r broses o gael geirfa sy'n benodol i barthau a chynnwys. Cysylltu delweddau gweledol â diffiniadau penodol.




**Mireinio Chwilio**
Dysgu'r dysgwyr i fireinio eu canlyniadau chwilio gan ddefnyddio Mireinio Chwilio. Gwella strategaethau chwilio myfyrwyr drwy gymharu termau chwilio, allweddeiriau a chanlyniadau.

**Crynhoi Uned**
Casglu'r dysgu at ei gilydd gyda Crynhoi Uned. Anogwch y myfyrwyr i gysylltu cysyniadau a ddysgwyd drwy gydol y broses â delweddau perthnasol.

# Teach Britannica: Adnoddau i Addysgwyr

Teach Britannica yn gymorth i addysgwr sy'n cynnig adnoddau parod i'w defnyddio sy'n cefnogi cyfarwyddyd, yn ogystal â chyfoethogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth ar draws pob lefel Britannica School. Drwy'r hyb pwrpasol hwn, gall addysgwyr gael gafael ar adnoddau fel trefnwyr graffig, strategaethau hyfforddi, a gwersi bach – i gyd wedi'u cynllunio i wneud addysgu'n haws ac yn fwy effeithiol.




## Mynediad at Teach Britannica

Mae'n hawdd cael gafael ar Teach Britannica o'r **eicon Britannica Education** ar brif dudalen llywio Britannica School.




## Gwersi Bach

**Personoli'r dysgu** a hybu ymgysylltiad gan ddefnyddio'r modiwlau bach hyn – yn berffaith ar gyfer **cynllunio gwersi, is-gynlluniau, a gweithgareddau estynedig yn y byd go iawn.**




## Strategaethau Hyfforddi

Mynediad at chwe chategori o **ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth** ar gyfer addysg effeithiol, fel **Cael Geirfa** a **Trefnu Meddyliau**, sy'n hanfodol ar gyfer nodau dysgu unrhyw ystafell ddosbarth.




## Trefnwyr Graffeg

Mae offer gweledol fel **diagramau, siartiau a delweddau strwythuredig** yn cefnogi dealltwriaeth myfyrwyr o gysylltiadau, prosesau a chysyniadau, **gan wneud syniadau cymhleth yn haws ei ddeall.**

Britannica®
EDUCATION

To learn more, contact us:

**enqbol@britannica.co.uk**
**+44 207 500 7800**
**Britannica.co.uk**